

Arweiniad i'r Warchodfa
Reserve Guide



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol **Dyfi**

National Nature Reserve

// Darganfyddwch dwyni, morfa heli a chors Dyfi
Discover Dyfi's dunes, saltmarsh and peat bog



cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales



Biosfer Dyfi Biosphere
gwerth y byd - world class by nature



**Cymru
Wales**

Darganfod Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi

Y rhan fwyaf cyfarwydd a hawsaf ei chyrraedd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi yw'r twyni yn Ynyslas. Ond nid dyma'r cyfan sydd ganddi i'w chynnig. Mae amrywiaeth aruthrol o wahanol gynefinoedd yma, gan gynnwys traethau llanwol eang a morfeydd heli Aber Afon Dyfi a chyforgors Cors Fochno; y cyfan yn rhoi rhywydd hynt i fywyd gwyllt cyfoethog a rhyfeddol.

Mae'r warchodfa enfawr hon yn ymestyn dros 2,000 hectar, ac yn cynnwys tair ardal wahanol iawn:

Twyni Ynyslas: dyma'r twyni mwyaf yng Ngheredigion sy'n denu'r nifer uchaf o ymwelwyr. Mae'r llethrau a'r pantiau tywodlyd yn cynnig cartref i anifeiliaid bychain di-ri gan gynnwys corynnod prin, gwenyn turio a glöynnod byw syfrdanol fel brithigion gwyrdd. Maen nhw hefyd yn cynnal poblogaeth gyfoethog o degeirianau a blodau gwyllt eraill, mwsoglau, llysiâu'r afu a ffyngau.

Aber Afon Dyfi: mae yma ardaloedd helaeth o fflatiau llaid, banciau tywod a morfeydd heli o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n cynnig ardaloedd bwydo pwysig i adar y gwlyptir ac ardal feithrin ar gyfer hyrddiaid a draenogiaid môr.

Cors Fochno: gorwedd y gors hon i gyfeiriad y de-ddwyrain o'r twyni ac Afon Leri. Dyma un o'r esiamplau mwyaf a gorau sydd ar ôl o gyforgors fawn ym Mhrydain. Mae wyneb y gors yn cael ei orchuddio gan dapestri o figwyn gwyrdd, aur a choch. Mae sawl rhywogaeth brin ac anarferol yn byw yma gan gynnwys planhigion sy'n bwyta pryfed fel gwllithlys, gwairlôyn mawr y waun, gwrrid y gors a'r fursen fach goch.

Discovering Dyfi National Nature Reserve

The dunes at Ynyslas are the most familiar – and accessible – part of Dyfi National Nature Reserve (NNR). But they aren't the whole story. There's an outstanding range of different habitats here, including the sweeping tidal sands and saltmarshes of the Dyfi Estuary and the raised peat bog of Cors Fochno, all of which play host to a rich and fascinating wildlife.

This huge reserve covers an area of over 2,000 hectares, and is made up of three very different areas:

Ynyslas Dunes: the largest dunes in Ceredigion and by far the most visited. The sandy slopes and hollows provide homes for a myriad of small animals including rare spiders, mining bees and spectacular butterflies like dark green fritillaries. They also support a rich population of orchids and other wildflowers, mosses, liverworts, and fungi.

Dyfi Estuary: with vast areas of internationally important mudflats, sandbanks and saltmarsh that provide important feeding areas for wetland birds and a nursery area for mullet and bass.

Cors Fochno (Borth Bog): lies to the south east of the dunes and the River Leri. It is one of the largest and finest remaining examples of a raised peat bog in Britain. The bog surface is dominated by a tapestry of green, gold and red sphagnum mosses. Many rare and unusual species live here including insectivorous plants like sundews, large heath butterfly, the rosy marsh moth and small red damselfly.





Croeso i Dyfi Ynyslas

Dyfi Ynyslas a'i gyfleusterau i ymwelwyr

Ynyslas yw'r brif fynedfa i'r Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae'r canlynol ymhlith y cyfleusterau i ymwelwyr yn Ynyslas:

- Canolfan ymwelwyr gyda siop fach. Er mwyn gweld yr amserau agor ewch i cyfoethnaturiol.cymru/dyfiynyslas
- llwybr pren 500 metr o'r ganolfan ymwelwyr drwy'r twyni i'r traeth
- llwybr cregyn o'r ganolfan ymwelwyr at y llwybr pren drwy'r twyni i'r traeth
- llwybr troed o'r maes carafanau at y llwybr cregyn lle mae'n ymuno â'r llwybr pren
- gwerthwr hufen iâ a diodydd symudol yn y maes parcio yn ystod yr haf
- teithiau cerdded tywysedig a digwyddiadau yn ystod yr haf
- toiledau hygrych

Sylwer: Mae gan y traeth wrth y warchodfa faner goch 'dim nofio' oherwydd y cerhyntau llanwol cryf hynod beryglus.

Mae croeso i grwpiau addysgol, ond gofynnwn iddynt gysylltu â ni drwy e-bost cyn dod: ynyslas@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae'n hawdd cyrraedd Dyfi Ynyslas

Ceir maes parcio bach i ymwelwyr anabl yn unig wrth ochr y brif ffordd fynediad i Ynyslas, 30 metr i'r de o faes parcio'r traeth.

Gallwch gael mynediad i Ganolfan Ymwelwyr Dyfi Ynyslas o faes parcio'r ymwelwyr anabl ar hyd llwybr wyneb caled a ramp pren sy'n addas i gadeiriau olwyn.

Welcome to Dyfi Ynyslas

Dyfi Ynyslas and its visitor facilities

Ynyslas is the main access point to the National Nature Reserve. Visitor facilities at Ynyslas include:

- Visitor centre with a small shop. For opening times go to naturalresources.wales/dyfiynyslas
- 500 metre boardwalk from the visitor centre across the dunes to the beach
- shell path from the visitor centre to a boardwalk across the dunes to the beach
- footpath from the caravan park to the shell path where it joins the boardwalk
- mobile ice-cream and drinks vendor in the car park during the summer
- guided walks and events in the summer
- accessible toilets

Please note: The beach at the reserve has a 'no swimming' red flag due to the dangerous strong tidal currents.

Educational groups are welcome, but are asked to contact us by email before visiting: ynyslas@naturalresourceswales.gov.uk

Dyfi Ynyslas is accessible

There is a small car park for disabled visitors only beside the main access road to Ynyslas, 30 metres south of the beach car park.

There is access from the disabled visitors' car park via a hard surfaced track and wooden ramp suitable for wheelchairs to the Dyfi Ynyslas Visitor Centre.

Teithiau Cerdded i Archwilio Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi

Teithiau Cerdded Dyfi Ynyslas

Dwy daith gerdded gylchol wedi eu harwyddo yn cychwyn o faes parcio'r traeth yn Ynyslas. Dilynwch arwyddbyst **Llwybr Twyni** i fynd i'r traeth neu dilynwch eich trwyn a mwynhau'r manau agored iach, y golygfeydd ysblennydd a sŵn y gwynt, y môr a'r adar!

Taith Gerdded Cors Fochno Sut i gyrraedd Cors Fochno

Mae'r llwybr i Gors Fochno ar ochr ddeheuol ffordd B4353 tri chilometr o Dre'r-ddôl. Gellir parcio yn ystyriol ger y giât gyntaf neu gall cerbydau 4x4 fynd drwyddi (cofiwch ei chau wedyn) ac ar hyd y llwybr garw am 800 m i faes parcio bychan iawn lle mae'r llwybr yn cychwyn.

Er mwyn osgoi aflonyddu ar fywyd gwyllt sensitif yr ardal hon ni chaniateir cŵn ar y llwybr pren.
Cyfeirnod Grid OS SN 636 926.

Walks to Explore Dyfi National Nature Reserve

Dyfi Ynyslas Walks

Two waymarked circular walks start from the beach car park at Ynyslas. Follow the **Dune Walk** waymarkers to get to the beach or simply follow your nose and take in the wide open spaces, spectacular views and the sounds of wind, sea and birds!

Cors Fochno Walk

How to get to Cors Fochno

The track to Cors Fochno is on the south side of the B4353 three kilometres from Tre'r-ddôl. Either park sensitively by the first gate or 4x4s can go through it (please close it behind you) and along the rough track to reach a very small car park after 800m where the walk starts.

To avoid disturbing the sensitive wildlife in this area dogs aren't allowed on the boardwalk.

OS grid reference SN 636 926.

Cors Fochno: nodi'r dystiolaeth

Mae mawn wedi bod yn cronni yma'n raddol ac yn barhaus ers dros 6,000 o flynyddoedd ac mae bellach wedi cyrraedd dyfnder o dros 6m! Mae gweddillion twf pob blwyddyn o lystyfiant y gors, ynghyd â phail, gronynnau tywod a llwch folcanig wedi'u cadw mewn haen ar ben haen yn yr amodau llawn dŵr. Mae'r archif unigryw hwn o wybodaeth amgylcheddol yn ffenestr i'r gorffennol sy'n galluogi'r gwyddonwyr i ddeall agweddau ar newid hinsawdd ac effaith dyn ar yr hyn sydd o'i amgylch.

Cors i chwilog

Mae sawl creadur di-asgwrn-cefn prin ac arbenigol yn byw fan hyn. Yn eu plith mae gwrid y gors, gweirlöyn mawr y waun, cricedyn hirgorn y gors, y fursen fach goch a chorryn arnofiol y fawnog.

Lle anghyfeillgar i blanhigion

Mae'r wyneb cors llawn dŵr yn lle anghyfeillgar i'r rhan fwyaf o blanhigion ac mae gan y rhai sy'n ffynnu yma, fel plu'r gweunydd, llafn y bladur a gwyrddling, addasiadau arbennig. Mae planhigion cigysol yn ffynnu fan hyn hefyd gan gynnwys y tair rhywogaeth frodorol o wllthlys.

Mwsogl sy'n creu corsydd

Y planhigion cors arbenigol pwysicaf (a'r prif ffurfwyr mawn), yw mwsogl y gors neu'r migwyn, sy'n creu carpedi lliwgar ar y gors agored ac yn codi ei arwyneb yn gromen fas wrth i'w gweddillion grynhoi. Mae 15 rhywogaeth o fwsogl y gors i'w cael yma gan gynnwys tair sy'n brin ar raddfa genedlaethol.

Rhowch gynnig ar **Lwybr Cors Fochno** i gael blas ar y gors hon sy'n llawn rhyfeddodau.



britheg werdd
dark green fritillary



Dyfi's saltmarsh: a top spot for birds

This is one of Cardigan Bay's most important areas for birdlife due to the abundant supply of marine worms and shellfish for them to eat. Many waders and wildfowl use the estuary during spring and autumn migrations to stop off to re-fuel and others overwinter on the estuary, including important numbers of wigeon and the only wintering population of Greenland white-fronted geese to regularly visit Wales.

Waders include the oystercatcher, dunlin, curlew and redshank. A good time to see many of these waders is at high tide when many of them congregate along the rising tide on the saltmarsh and sandflats; please don't go too close and disturb them and keep your dog on a lead during this period.

Plants that can survive being covered by the sea?

Dyfi's tidal sands, mudflats and the largest saltmarsh in Ceredigion remain largely inaccessible and unseen. Trying to see them on foot can be dangerous. However along the eastern side of the **Ynyslas Walk** you get a wonderful view of the saltmarsh with its specialised plants adapted to being covered by seawater twice a day, none does it better than the strange fleshy marsh samphire. During mid-summer large areas of the saltmarsh are carpeted with the pink flowers of thrift and later in the summer with mauve sea asters.

Canolfan Ymwelwyr
Dyfi Ynyslas
Visitor Centre

© Airbus Defence & Space a Getmapping.
Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru
(Taliadau Gwledig Cymru) - Mehefin 2023

© Airbus Defence & Space and Getmapping.
Reproduced by permission of Welsh Government
(Rural Payments Wales) - June 2023



Eglwys Fach

Ffwrnais
Furnace

A487

i/to Machynlleth

Glandyfi



Ffin GNG
NNR Boundary



Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



Llwybr Arfordir Ceredigion
Ceredigion Coast Path



Ffôn mewn argyfwng
Emergency phone



Dim nofio o gwbl
No swimming anywhere



Bin baw cŵn
Dog waste bin



Llwybr Ynyslas
Ynyslas Walk ○○○



Llwybr Twyni
Dune Walk ●●●



Perygl! Mwd Meddal
Danger! Soft Mud



Cŵn ar dennyn
Dogs on lead



Lloc Bridio Cwtiaid
(Dim mynediad: 1 Maw - Med)
Plover Breeding Enclosure
(No access: 1 Mar-Sep)



© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhychwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) - Mehefin 2023

© Airbus Defence & Space a Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) - June 2023



LLWYBR CORS FOCHNO

Amser: $\frac{3}{4}$ - 1 awr
Pellter: 0.8 milltir/1.4km
Gradd: Hawdd
Uchafbwyntiau: Arwyneb lliwgar y gors - tapestri aur a choch o fwsoglau migwyn. Chwiliwch am rywogaethau prin ac anghyffredin yn cynnwys gweirlöyn mawr y waun (ym mis Mehefin), y fursen fach goch (canol haf) a phlanhigion sy'n bwyta pryfed fel gwllthlys.

CORS FOCHNO WALK

Time: $\frac{3}{4}$ - 1 hour
Distance: 0.8 miles/1.4km
Grade: Easy
Highlights: The peat bog's colourful surface - a tapestry of gold and red sphagnum mosses. Look out for rare and unusual species including large heath butterfly (in June), the small red damselfly (mid summer) and insect-eating plants like the sundew.

TEITHIAU

LLWYBR TWYNI



Amser: $\frac{1}{2}$ - 1 awr
Pellter: 1.3 milltir/2.1km
Gradd: Hawdd
Uchafbwyntiau: Brasgamwch drwy'r twyni cyfnewidiol ac ar hyd y traeth, gydag arddangosfeydd trawiadol o flodau yn y gwanwyn a'r haf, a ffynghau lliwgar yn yr hydref.

WALKS

DUNE WALK




Time: $\frac{1}{2}$ - 1 hour
Distance: 1.3 miles/2.1km
Grade: Easy
Highlights: Stride through the ever-changing dunes and along the seashore, with stunning displays of flowers in spring and summer, and colourful fungi in the autumn.

LLWYBR YNYSLAS



Amser: $\frac{1}{4}$ - 2 awr
Pellter: 2.7 milltir/4.3km
Gradd: Hawdd
Uchafbwyntiau: Profwch amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd yn cynnwys twyni tywod, glan y môr, tir ffermio a morfa heli gyda golygfeydd gwych o'r aber.

YNYSLAS WALK



Time: $\frac{1}{4}$ - 2 hours
Distance: 2.7 miles/4.3km
Grade: Easy
Highlights: Experience a rich variety of habitats including sand dunes, seashore, farmland and saltmarsh with stunning views of the estuary.

Llwybr Twyni Dune Walk



Uchafbwyntiau'r tymhorau

Sylwch ar y newidiadau yn y dirwedd a'r bywyd gwyllt yn ystod y flwyddyn.

Gwanwyn

Wrth i'r tywydd gynhesu, bydd blodau'r gwanwyn yn y twyni a phlu'r gweinydd yn blodeuo ar y gyforgors. Efallai y cewch chi gip ar un o'r nifer fawr o ymlusgiaid sy'n byw yma fel y fadfall, madfall y tywod, y wiber a neidr y gwair. Mae'r wenynen durio, sef arbenigwr ar y tywod moel, yn brysur yn ystod y gwanwyn hefyd. Mae digon o ganu i'w fwynhau gan yr adar hefyd, o'r ehedydd, y llinos, y llwydfron a chlochdar y cerrig.

Haf

Daw'r haf â sioe gyfoethog o flodau i'r warchodfa. Bydd y tegeirian rhuddgoch yn ymddangos ar ddechrau'r haf yn y llaciau twyni (ardaloedd gwlyb y twyni) a ddilynir gan galdrist y gors, gyda thegeirianau bera a thegeirianau'r wenynen ar y cefnau sychach. Mae yna flodau morfa heli lliwgar hefyd: clustog Fair, seren y morfa, troellig arfor yn ogystal â choesynnau tew gwyrdd rhyfedd y chwyn hallt. Ar ddiwrnodau heluog ar y twyni bydd glöynnod byw a gwyfynod y dydd yn llenwi'r awyr, tra bydd gweision y neidr yn gwibio o amgylch y gyforgors. Ac efallai y gwelwch weilch y pysgod a dyfrgwn ar y foryd.

Hydref

Mae lliwiau'r hydref yn gyfoethog ac yn amrywiol ar y gyforgors sydd wedi'i haddurno ag amrywiaeth o liwiau rhytgoch. Ymhlith y ffyngau mae capiau cwyr, sêr y ddaear, codenni mwg a a ffwng nyth aderyn sy'n ychwanegu at y sioe liwgar ar y twyni. Gallwch weld adar hirgoes sy'n mudo yn y foryd.

Gaeaf

Yn ystod y gaeaf, mae Aber Afon Dyfi'n gartref i adar dŵr y gaeaf ond ar y traeth, mae'n bosibl y gwelwch adar hirgoes fel cwtiaid torchog, pibyddion y mawn, pibyddion y tywod a chwtiaid aur. Mae'n bosibl hefyd y gwelwch amrywiaeth o adar rheibus fel bodaod tinwyn a hebogiaid tramor, ac yn cael cipolwg ar wyddau talcenwyn yr Ynys Las: dyma'r unig leoliad y gellir eu gweld yng Nghymru a Lloegr.

madfall
common lizard



©Orangeaurochs

gwyfyn teigr ôl-adain goch
scarlet tiger moth



Seasonal highlights

During the year look out for changes to the landscape and wildlife.

Spring

As the weather warms up, there are spring flowers in the dunes and flowering cotton grass on the raised bog. You may catch a glimpse of one of the many reptiles that live here such as the common lizard, sand lizard, adder and grass snake. The Welsh vernal mining bee, a bare sand specialist, is also active during the spring. There is plenty of birdsong to enjoy including skylarks, linnets, stonechats, grasshopper warblers and whitethroats.

Summer

Summer brings a rich display of flowers to the reserve. Marsh orchids appear in the early summer in the dune slacks (the wet areas of the dunes) followed by marsh helleborine, with pyramidal and bee orchids on the drier ridges. There are also colourful saltmarsh flowers: sea pink, sea aster, sea spurrey as well as the strange green fat fleshy stems of marsh samphire. Butterflies and day-flying moths fill the air on sunny days on the dunes, while dragonflies dart around the raised bog. You might spot wildlife like osprey and otter on the estuary.

Autumn

The autumn colours are rich and varied on the raised bog which is dressed in a range of russet red colours. Fungi including waxcaps, earth stars, puffballs and bird's nest fungi add to the colourful display on the dunes. You can see migrating waders in the estuary.

Winter

During the winter, the Dyfi estuary is home to wintering wildfowl while, on the beach, you may see waders like ringed plover, dunlin, sanderling and golden plover. You may also see a variety of birds of prey, such as hen harrier and peregrine falcon, and catch sight of the Greenland white-fronted goose: its only location in Wales and England.

tegeirian y gors cynnar
early marsh orchid



cwtiaid torchog
ringed plover



©Andreas Trepte

Twyni tywod Ynyslas

Tywod symudol yn creu cartref i fywyd gwyllt

Mae'r gwynt yn symud ac yn ailffurfio'r twyni'n gyson. Efallai fod y tywod moel agored yn ymddangos yn ddigroeso, ond dim ond yn y cynefin hwn y gall gwenynen y tywod fyw. Ar ddiwrnod heulog o wanwyn, gallech fod yn ddigon lwcus i weld pryfyn prin arall, sef gwenynen durio'r gwanwyn, yn bywdo ar baill corhelyg.

Mae planhigion wedi addasu i ffynnu yn yr amodau tebyg i ddiffieithwch hyn ac un rhywogaeth sy'n gwneud yn well na phob un yw'r moresg toreithiog.

Enwog am ffyngau

Mae'r borfa dywodlyd yn cynnig amodau tyfu perffaith i rai ffyngau twyni tywod trawiadol ac unigryw fel y gorseren ddaear ryfeddol, capiau cwyr amryliw, ffyngau cwrel a phastwn, tafod y ddaear ac ambarelo'r bwgan.

Twyni yn eu blodau'n denu ieir bach yr haf

Mae blodau gwyllt y twyni'n denu cyfoeth o bryfatach. Daw dechrau'r haf â sioeau toreithiog o fioledau a thegeirianau, ac yna ceir sioe liwgar ganol yr haf o dagaradr, briwydd felen a theim. Ymhlith y glöynnod byw i gadw llygad amdanynt mae'r glesyn cyffredin, y fritheg werdd a gweirlöyn y perthi a gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd fel teigr y benfelen a'r hen wrach.

Rhowch gynnig ar ein **Llwybr Twyni** dolennog gyda phwyntiau cyfeirio o'r maes parcio i gael profiad llawn o'r twyni.

Ynyslas's sand dunes

Shifting sands create homes for wildlife

The wind constantly moves and reshapes the dunes. Bare, open sand may look inhospitable, but some scarce insects including the sand wasp can only survive in this habitat. On a sunny spring day you may be lucky enough to see another rarity, the vernal mining bee, feeding on the pollen of creeping willow.

Plants have adapted to thrive in the desert-like conditions and none does it better than the abundant marram grass.

Famous for fungi

The sandy grasslands offer perfect growing conditions for some impressive and unique sand dune fungi such as the fascinating dwarf earthstar, multi-coloured waxcaps, coral and club fungi, earth-tongues and parasols.

Blooming dunes bring in butterflies

The dune wildflowers attract a wealth of insects. Early summer brings abundant displays of violets and orchids, followed by mid-summer's colourful show of restharrow, lady's bedstraw and thyme. Butterflies to look out for include common blue, dark green fritillary and gatekeeper and day flying moths the cinnabar and mother shipton.

Try our waymarked circular **Dune Walk** from the car park for a full dune experience.



gwenynen durio y gwanwyn
vernal mining bee



seren y ddaear
earthstar



clochdar y cerrig
stonechat



tegeirian y gwenyn
bee orchid



lindys gwyfyn teigr y benfelen
cinnabar moth caterpillar

Morfa heli Dyfi: lle gwych am adar

Dyma un o ardaloedd pwysicaf Bae Ceredigion o ran adar oherwydd digonedd y mwydod morol a chregynbysgod sydd ar gael i'w bwyta. Mae llawer o adar hirgoes ac adar ddŵr yn defnyddio'r aber yn ystod cyfnodau ymfudo'r gwanwyn a'r hydref er mwyn stopio i ail-lenwi'u boliau ac mae rhai eraill yn treulio'r gaeaf ar yr aber, gan gynnwys niferoedd pwysig o chwiwellau a'r unig boblogaeth aeafol o wyddau talcenwyn yr Ynys Las sy'n ymweld â Chymru'n aml.

Ymhlith yr adar hirgoes mae'r bиден fôr, pibydd y mawn, y gylfinir a'r pibydd coesgoch. Adeg dda i weld llawer o'r adar hirgoes hyn yw ar lanw uchel pan fydd nifer fawr ohonynt yn ymgynnull ar y morfa heli a'r fflatiau llaid wrth i'r llanw godi; peidiwch â mynd yn rhy agos atynt a tharfu arnynt a chofiwch gadw eich ci ar dennyn yn ystod y cyfnod hwn.

Planhigion sy'n gallu byw dan orchudd y môr?

Mae cryn dipyn o draethau llanw a fflatiau llaid Dyfi a'r morfa heli mwyaf yng Ngheredigion yn parhau i fod yn anhygyrch ac o'r golwg. Gall ceisio mynd i'w gweld ar droed fod yn beryglus. Fodd bynnag, ar hyd ochr ddwyreiniol **Llwybr Ynyslas**, cewch olygfa arbennig o'r morfa heli a'i blanhigion arbenigol sydd wedi addasu i gael ei orchuddio gan ddŵr hallt ddwywaith y dydd. Yr un gorau am hyn yw'r chwyn hallt tew a rhyfedd. Yn ystod canol yr haf, mae ardaloedd eang o'r morfa heli wedi'u gorchuddio â blodau pinc clustog Fair ac yn nes ymlaen yn yr haf gyda phorffor golau sêr y morfa.



seren y morfa
sea asters



chwiwell
wigeon

©Andreas Trepte



gŵydd dalcenwen yr Ynys Las
Greenland white-fronted goose

Cors Fochno: taking down the evidence

Peat has been accumulating here gradually and continuously for over 6,000 years and now reaches a depth of over 6m! Remains of each year's growth of bog vegetation, together with pollen, sand grains and volcanic dust are preserved in layer upon layer in the waterlogged conditions. This unique archive of environmental information is a window into the past enabling scientists to understand aspects of climate change and man's impact on the surroundings.

A bog for bugs

Many rare and specialised invertebrates survive here. They include: rosy marsh moth, large heath butterfly, bog bush-cricket, small red damselfly and bog raft spider.

Hostile place for plants

The waterlogged bog surface is a hostile place for most plants, and those that thrive here, like bog cotton, bog asphodel and bog myrtle, all have special adaptations. Carnivorous plants also come into their own here including all three native species of sundews.

Bog-creating mosses

The most important bog specialist plants (and the main peat-formers), are the bog mosses or sphagnums, which form colourful carpets on the open bog and raise its surface into a shallow dome as their remains accumulate. 15 species of bog moss occur here including three national rarities.

Try our **Cors Fochno Walk** to get a taste of this bountiful bog.



Gwrid y gors

Cafodd hwn ei ddarganfod yma yn 1967. Y gred oedd iddo ddarfod ym Mhrydain am dros ganrif ar ôl draenio'i gynefin yng nghorsydd Swydd Gaergrawnt

Rosy marsh moth


Discovered here in 1967 thought to have been extinct in Britain for over a century following drainage of its habitat in the Cambridgeshire fens.




migwyn
sphagnum moss



gwlithlys
sundew



Bwlch Nant yr Arian



Coedwig Dyfi
Dyfi Forest



Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris
Cadair Idris National Nature Reserve



Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron
Cors Caron National Nature Reserve

Os gwnaethoch fwynhau Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi, pam nad ewch chi i un o'n safleoedd eraill gerllaw:

Bwlch Nant yr Arian

Ewch i weld yr olygfa syfrdanol o farcutiaid yn ysgubo i lawr i fwydo ger llyn Bwlch Nant yr Arian drwy'r flwyddyn (3pm haf, 2pm gaeaf). Mwynhewch ein llwybrau cerdded, beicio mynydd a marchogaeth sy'n ymdroelli trwy'r goedwig, dros gefnennau a gwnewch y mwyaf o'r golygfeydd panoramig. Wedyn, beth am luniaeth yn ein caffi sy'n edrych dros yr olygfa.

Coedwig Dyfi

Mae copaon geirwon yn edrych dros y llechweddau coediog sy'n frith o adfeilion atmosfferig a thomenni llechi. Mae trenau stêm yn pwffian ar hyd y llechweddau ar y traciau a arferai gario llechi o'r chwael i'r arfordir. Archwiliwch un o'r tri choetir gwahanol.

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris

Dyma fan cychwyn poblogaidd i gerddwyr sy'n awyddus i gael profiad o harddwch gerwin Cadair Idris. A gall y rhai sy'n dymuno dysgu mwy am ddaeareg syfrdanol a bywyd gwyllt y warchodfa wneud hynny yn y ganolfan ymwelwyr. Bydd hon yn agored yn dymhorol a cheir caffi yma hefyd. Rhowch gynnig ar un o'n dringfeydd serth i fyny rhan o lwybr Minffordd ar gyfer golygfeydd o raeadrau a choetiroedd, neu'r teithiau cerdded hamddenol o gwmpas parcdir Dôl Idris ger y maes parcio.

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron

Mae'r warchodfa dawel hon yn cynnwys tair cyforgors a wnaed o fawn dwfn a fu'n cronni dros 12,000 o flynyddoedd. O amgylch y corysdd ceir corslwyni, porfa wlyb, coetir, afonydd, nentydd a phyllau. Mae'r llwybrau cerdded yn eich arwain dros y gors ar lwybrau pren, ar hyd yr afon a hen reilffordd. Mae'r toiledau a'r guddfan adar yn hygyrch a bob amser ar agor.

If you enjoyed Dyfi NNR why not visit one of our other nearby sites:

Bwlch Nant yr Arian

Experience the spectacular sight of red kites swooping down to feed alongside Bwlch Nant yr Arian's lake throughout the year (3pm summer, 2pm winter). Enjoy our walking, mountain bike and horseriding trails that wind through the forest, over ridgetops and take in panoramic views. Then reward yourself at our café with a view.

Dyfi Forest

Rugged peaks loom above the forested hillsides that are dotted with atmospheric ruins and slate spoil heaps. Steam trains chug along the hillsides on tracks which once carried slates from quarry to coast. Explore one of three different woodlands.

Cadair Idris National Nature Reserve

This is a popular starting point for walkers keen to experience the rugged beauty of Cadair Idris and those who want to find out more about the striking geology and wildlife of the reserve in the visitor centre (seasonal opening with café). Try one of our steep climbs up part of the Minffordd path for views of waterfalls and woodlands, or the gentle walks around the parkland of Dôl Idris near the car park.

Cors Caron National Nature Reserve

This peaceful reserve includes three raised bogs made up of deep peat which has built up over the past 12,000 years. The bogs are surrounded by reedbeds, wet grasslands, woodland, rivers, streams and ponds. Walks take you over the bog on a boardwalk, along the river and disused railway line. The toilets and bird hide are accessible and always open.



0300 065 3000
cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales

01970 872 901
I ganfod yr amserau agor ewch i
cyfoethnaturiol.cymru/dyfiynyslas
ynyslas@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

 @cnc_ynyslas  /DyfiYnyslas



01970 872 901
For opening times see
naturalresources.wales/dyfiynyslas
ynyslas@naturalresourceswales.gov.uk

Sut i gyrraedd yma

Mae **Dyfi Ynyslas** 10 milltir i'r gogledd o Aberystwyth ar ffordd B4353. Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans SN 609 941. Mae'r maes parcio (ffi barcio) ar draeth llanw sy'n cael ei orchuddio gan ddŵr y môr adeg llanw mawr.

Cludiant cyhoeddus
www.cymraeg.traveline.cymru

How to get here

Dyfi Ynyslas is 10 miles north of Aberystwyth on the B4353. OS grid reference SN 609 941. The car park (parking charge) is on the beach and it is flooded in high tides. Please note tide times on car park entrance sign.

Public transport
www.traveline.cymru

Os hoffech chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol gadewch inni wybod os gwelwch yn dda:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000